Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 27 January 2025 at 6.30 pm
## Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Phil Keeton (Vice Chair), Sara Keeton and Rebecca Fogarty

**Co-opted Members Present**: Eddie Hall

**Officers Present:** Robert Hernando – Environmental Officer and Ian Hughes – CSO

**Members of the Public Present:** Dan Staniaszek

**EN2501-01** **Apologies:** None

**EN2501-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2501-03** **Dan Staniaszek providing a presentation on Big Carbon Leap (6.15 to 6.45pm)**

Dan Staniaszek outlined his previously circulated PowerPoint Presentation to Councillors. Dan outlined the carbon footprint of MCC within the context of the Big Climate Leap Programme. The footprint follows internationally agreed guidelines laid down by The Greenhouse Gas Protocol. The footprint breaks down into three broad categories (Scopes) which Dan detailed in depth in relation to MCC following an extensive examination of the Council's workings.

A lengthy discussion ensued covering all aspects of the report including how major projects such as The Mumbles Skatepark and the Underhill Development whilst necessary may skew an accurate picture of MCC's carbon footprint.

Dan Staniaszek concluded his presentation and left the meeting at 6.47pm.

Following Dan's departure, the committee continued to discuss the presentation and highlighted the need for the impact of Officers and Councillors working from home to be included in future findings.

**ACTION:** As part of the Carbon Footprint Report 23-24, **The Clerk** in consultation with **Robert Hernando** to facilitate recordings of relevant data such as the use of energy/fuel by Councillors and Officers when working from home or travelling between appointments in connection with MCC Business. This aspect of the carbon footprint was not included within current report.

**EN501-04** **Minutes of Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 25 November 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 25 November 2024 as a true record.

**EN2501-05** **Actions arising from Previous Meetings**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**EN2501-06** **Budget Monitoring Reports to 30/11/2024 - Paul Beynon, RFO**
Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to Committee members.

No queries were raised with RFO or CSO prior to the meeting. A discussion took place on the need to commence preparations, including posters being distributed for Mumbles Buzz and Bloom in March, for which a budget already exists.

**ACTION**: CSO to create a February agenda item in relation to Mumbles Buzz and Bloom.

**RESOLVED:** to approve the budget monitoring report to 30 November 2024.

**EN2501-07** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**
Summary of previous months activity and next steps for January. Report attached.

Robert Hernando, The Environmental and Sustainability Engagement Officer had previously provided his monthly report to committee members. He outlined key aspects of the report including the Litter Picking Hub being launched on 02.01.2025.



Draft

No update regarding the Website available, but Jubilee Gardens Project progressing well and this is expected to be completed by March 2025. Voluntary sessions outlined however an excellent tree-pruning session was tarnished by people not attending despite the event being oversubscribed. Options to ensure attendance by those registering to attend being considered.

**EN2501-08** **Bee Friendly Streets Project**

Robert Hernandez outlined that he and Cllr Phil Keeton had already discussed this agenda item and that a plan will be available for the February Committee Meeting.

**EN2501-09** **Climate Emergency Action (Plastic Free Mumbles & Flood Awareness)**

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined how she and others had met with Jane Richmond of SCC and that plans were progressing, (previously discusses under action number 93 of agenda item **EN2501-05.)**

Eddie Hall outlined a water testing initiative.

**RESOLVED:** Water quality testing project to be an agenda item at February's meeting.

**EN2501-10** **MCC Website – SA1 and Social Media**

Robert Hernando outlined that attempts to discuss issues of the environmental aspect of MCC's Website with SA1 had proved unsuccessful.

**RESOLVED**: To discuss at February's Meeting the options of whether to have a separate environmental website or include the environment as a dedicated section within the existing MCC Website. This will be an early agenda item at February's Meeting with a discussion of what should be included within either the separate website or the dedicated environmental section.

**EN2501-11** **Litter Free Zones and Monthly Litter Pick Dates**

Robert Hernando outlined that litter picks should be moved from Sunday Mornings; consideration being given to carrying out such picks at alternative times including after school. In addition, the introduction of the Litter Picking Hubs has also impacted on weekend picks.

**RESOLVED:** Litter picking times to be discussed as an agenda item at February's Committee Meeting.



Draft

## EN2501-12 Fly-tipping Action Wales - Toolkit sharing update

Robert Hernandez outlined fly-tipping is primarily an issue for SCC and that no 'toolkit' is available for sharing.

**RESOLVED:** Any fly-tipping concerns to be reported directly to SCC.

## EN2501-13 Mumbles Skatepark Update

This item was deferred until the next meeting.

## EN2501-14 Engaging with Young People

At 7.38pm both Cllrs Sara Keeton and Phil Keeton left the meeting. Due to the meeting no longer being quorate the meeting concluded,

This item was deferred until the next meeting.

## EN2501-15 Mumbles Green Heroes

A discussion took place in relation to holding future events before the end of March 2024 such as a further recycling visit.

**ACTION:** Robert Hernando to propose a suitable visit prior to the end of March 2025.

**Meeting ended at 7.38pm.**

**Next Meeting 24 February 2025**

Draft

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2025 am 6.30 pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Phil Keeton (Is-Gadeirydd), Sara Keeton a Rebecca Fogarty

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Robert Hernando – Swyddog Amgylcheddol ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**Aelodau'r cyhoedd yn bresennol:** Dan Staniaszek

**EN2501-01** **Ymddiheuriadau:** Dim

**EN2501-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2501-03** **Dan Staniaszek yn rhoi cyflwyniad ar y Naid Fawr Carbon (6.15pm i 6.45pm)**

Amlinellodd Dan Staniaszek ei gyflwyniad PowerPoint a ddosbarthwyd yn flaenorol i gynghorwyr.Amlinellodd Dan ôl troed carbon Cyngor Cymuned y Mwmbwls yng nghyd-destun rhaglen Naid Fawr yr Hinsawdd. Mae'r ôl troed yn dilyn canllawiau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol a osodwyd gan y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr. Mae'r ôl troed yn rhannu'n dri chategori bras (cwmpasau) y manylodd Dan yn fanwl arnynt mewn perthynas â Chyngor Cymuned y Mwmbwls yn dilyn archwiliad helaeth o waith y cyngor.

Cafwyd trafodaeth faith ar bob agwedd ar yr adroddiad gan gynnwys sut y gallai prosiectau mawr megis Parc Sglefrio'r Mwmbwls a datblygiad Underhill, er eu bod mawr eu hangen, wyro darlun cywir o ôl troed carbon Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Gorffennodd Dan Staniaszek ei gyflwyniad a gadawodd y cyfarfod am 6.47pm.

Yn dilyn ymadawiad Dan, parhaodd y pwyllgor i drafod y cyflwyniad a thynnu sylw at yr angen i gynnwys effaith swyddogion a chynghorwyr yn gweithio o gartref yng nghanfyddiadau'r dyfodol.

**CAM GWEITHREDU:** Fel rhan o Adroddiad Ôl Troed Carbon 2023-2024, y **clerc** mewn ymgynghoriad â **Robert Hernando** i hwyluso cofnodi data perthnasol megis defnydd ynni/tanwydd gan gynghorwyr a swyddogion wrth weithio gartref neu deithio rhwng

apwyntiadau mewn cysylltiad â busnes Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Nid oedd yr agwedd hon ar yr ôl troed carbon wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyfredol.

**EN2501-04** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2024 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

**EN2501-05** **Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**EN2501-06** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Tachwedd 2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar yr angen i ddechrau paratoadau, gan gynnwys dosbarthu posteri, ar gyfer Su'r Mwmbwls yn ei Blodau ym mis Mawrth, y mae cyllideb eisoes yn bodoli ar ei gyfer.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i greu eitem agenda mis Chwefror mewn perthynas â Su'r Mwmbwls yn ei Blodau.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Tachwedd 2024.

**EN2501-07** **Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Ionawr. Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd Robert Hernando, y Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol a Chynaliadwyedd wedi darparu ei adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Amlinellodd agweddau



Draft

allweddol ar yr adroddiad gan gynnwys yr Hyb Casglu Sbwriel sy'n cael ei lansio ar 2 Ionawr 2025.
Nid oedd diweddariad ynglŷn â'r wefan ar gael, ond mae Prosiect Gerddi Jiwbilî yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Amlinellwyd y sesiynau gwirfoddoli, serch hynny, cafodd sesiwn ardderchog o docio coed ei llychwino oherwydd i bobl beidio ag ymddangos ar y dydd er gwaethaf y ffaith bod mwy o bobl wedi cynnig gwirfoddoli nag oedd lleoedd. Mae opsiynau i sicrhau presenoldeb y rhai sy'n cofrestru i fynychu yn cael eu hystyried.

**EN2501-08** **Prosiect Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn**

Amlinellodd Robert Hernandez ei fod ef a'r Cynghorydd Phil Keeton eisoes wedi trafod yr eitem hon ar yr agenda ac y bydd cynllun ar gael ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror.

**EN2501-09** **Camau gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd (Mwmbwls di-blastig ac ymwybyddiaeth o lifogydd)**

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones sut yr oedd hi ac eraill wedi cyfarfod â Jane Richmond o Gyngor Dinas a Sir Abertawe a bod cynlluniau yn mynd rhagddynt, (trafodwyd yn flaenorol o dan weithred rhif 93 o eitem agenda **EN2501-05.)**

Amlinellodd Eddie Hall fenter profi dŵr.

**PENDERFYNWYD:** Y dylai prosiect profi ansawdd dŵr fod yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Chwefror.

**EN2501-10** **Gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls – SA1 a'r cyfryngau cymdeithasol**

Amlinellodd Robert Hernando fod ymdrechion i drafod materion agwedd amgylcheddol gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls ag SA1 wedi bod yn aflwyddiannus.

**PENDERFYNWYD:** Trafod yr opsiynau o ran cael gwefan amgylcheddol ar wahân neu gynnwys yr amgylchedd fel adran benodol ar wefan bresennol Cyngor Cymuned y Mwmbwls yng nghyfarfod mis Chwefror. Bydd hon yn eitem gynnar ar yr agenda yng nghyfarfod mis Chwefror a bydd yn cynnwys trafodaeth ar yr hyn y dylid ei gynnwys naill ai ar y wefan ar wahân neu'r adran amgylcheddol benodol.

**EN2501-11** **Parthau di-sbwriel a dyddiadau casglu sbwriel misol**

Amlinellodd Robert Hernando y dylid symud ymgyrchoedd codi sbwriel o foreau Sul; ystyriwyd digwyddiadau casglu sbwriel o'r fath ar adegau eraill gan gynnwys ar ôl ysgol. Yn ogystal, mae cyflwyno'r Hybiau Casglu Sbwriel hefyd wedi effeithio ar sesiynau casglu sbwriel ar benwythnosau.

**PENDERFYNWYD:** Trafod amseroedd digwyddiadau casglu sbwriel fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror.

## EN2501-12 Taclo Tipio Cymru – Diweddariad ar rannu pecyn cymorth

Amlinellodd Robert Hernandez fod tipio anghyfreithlon yn broblem yn bennaf i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac nad oes 'pecyn cymorth' ar gael i'w rannu.

**PENDERFYNWYD:** Adrodd am unrhyw bryderon ynghylch tipio anghyfreithlon yn uniongyrchol i Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

## EN2501-13 Diweddariad ar Barc Sglefrio'r Mwmbwls

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

## EN2501-14 Ymgysylltu â phobl ifanc

Gadawodd y Cynghorwyr Sara Keeton a Phil Keeton y cyfarfod am 7.38pm. Oherwydd nad oedd cworwm yn y cyfarfod bellach, daeth y cyfarfod i ben.

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

## EN2501-15 Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chynnal digwyddiadau yn y dyfodol cyn diwedd mis Mawrth 2025 megis ymweliad ailgylchu pellach.

**CAM GWEITHREDU:** Robert Hernando i gynnig ymweliad addas cyn diwedd mis Mawrth 2025.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.38pm.**

**Cyfarfod nesaf 24 Chwefror 2025**



Draft